IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MERCHER, 7 MEHEFIN 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Kaaba (Dirprwy Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Bridgeman a/ac Sattar |

1 : EITHRIO'R CYHOEDD

Barnwyd bod yr eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag ei chyhoeddi am ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cafodd y cyhoedd eu gwahardd o'r cyfarfod trwy benderfyniad y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaeth ar yr eitem hon.

2 : MATERION CERBYDAU HACNI/CERBYDAU LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid ymdrin â'r materion canlynol fel y nodir:

(1) Achos 1

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried cwyn a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd bod gyrrwr cerbyd hacni wedi gofyn am daliad cyn y daith a hefyd wedi gwrthod defnyddio mesurydd tacsi.

Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan y gyrrwr. Dywedodd y gyrrwr nad oedd yn cofio'r digwyddiad. Derbyniodd mai ffotograff o'i gerbyd ef oedd ffotograff a gyflwynwyd gan yr achwynydd ond gwadodd mai ef oedd y gyrrwr a oedd yn rhan o'r digwyddiad. Cadarnhaodd y gyrrwr ei fod yn ymwybodol o'r amodau trwyddedu sy'n ymwneud â defnyddio'r mesurydd tacsi.

Siaradodd yr achwynydd gerbron yr Is-bwyllgor. Cafodd yr Aelodau wybod iddo ofyn i yrrwr y tacsi ei yrru i Drelái. Gofynnodd y gyrrwr am £20 cyn y daith. Cytunodd yr achwynydd i hyn ar yr amod bod y mesurydd tacsi yn cael ei ddefnyddio. Ar yr adeg honno gwrthododd ddefnyddio'r mesurydd. Dywedodd yr achwynydd iddo atgoffa'r gyrrwr bod yn rhaid iddo ddefnyddio'r mesurydd ar gyfer y daith hon a dywedodd y gyrrwr ei bod yn noson brysur felly ei fod yn gwrthod defnyddio'r mesurydd. Pan ddywedodd yr achwynydd y byddai'n adrodd y mater i'r awdurdod trwyddedu, gwnaeth y gyrrwr gynhyrfu. Yna gwnaeth yr achwynydd dynnu ffotograff o gefn y cerbyd a mynd ati i chwilio am dacsi arall. Yn y pen draw, archebodd gerbyd Uber, y pris oedd £13.50.

Wrth ymateb i gwestiwn gan yr Is-bwyllgor, dywedodd

yr achwynydd na allai fod yn siŵr mai'r gyrrwr o'i flaen oedd gyrrwr y cerbyd ar y noson dan sylw. Fodd bynnag, roedd yn siŵr mai'r cerbyd yn y ffotograff oedd y cerbyd dan sylw. Gwahoddwyd yr Is-bwyllgor i weld stamp dyddiad digidol y ffotograff a gadarnhaodd fod y ffotograff wedi'i dynnu ar 0525 o'r gloch ar 5 Chwefror 2023. Dywedodd yr achwynydd hefyd iddo e-bostio’r Awdurdod Trwyddedu gyda manylion y digwyddiad yn syth ar ôl dychwelyd adref.

Cadarnhaodd y gyrrwr mai ef oedd unig yrrwr y cerbyd ac nad oedd unrhyw un arall yn defnyddio'r cerbyd.

PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn derbyn rhybudd ysgrifenedig am wrthod defnyddio'r mesurydd tacsi. Derbyniodd yr Is-bwyllgor fod y ffotograff a gyflwynwyd gan yr achwynydd yn ddilys a'r gyrrwr oedd gyrrwr y cerbyd ar y pryd.

(2) Cais 2

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried adroddiad a dderbyniwyd gan Uber ynghylch ymddygiad gyrrwr cerbyd hacni / hurio preifat a drwyddedwyd gan yr awdurdod. Nododd yr adroddiad fod y gyrrwr wedi cael ei gyfrif Uber wedi'i ddadactifadu'n barhaol oherwydd cyfres o gwynion o natur debyg gan gwsmeriaid ar y platfform. Roedd y cwynion yn ymwneud â nifer o sylwadau, awgrymiadau a chwestiynau personol a wnaed gan y gyrrwr wrth gludo cwsmeriaid.

Siaradodd y gyrrwr gerbron yr Is-bwyllgor. Dywedodd y gyrrwr na chafodd wybod am yr holl ddigwyddiadau dan sylw gan Uber a bod Uber wedi delio â'r cwynion yn 'amhroffesiynol'. Honnwyd bod Uber wedi ei holi am un o'r digwyddiadau pan oedd teithiwr yn ei gerbyd. Gwnaeth Uber hefyd ohebu ag ef ond roedd yr enw anghywir ar yr ohebiaeth er gwaethaf ymdrechion dro ar ôl tro i gywiro hyn.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Uber wedi gofyn cwestiynau penagored amhenodol nad oedd y gyrrwr yn teimlo y gallai eu hateb. Cadarnhawyd ei fod wedi derbyn e-bost gan Uber yn nodi ei fod wedi torri eu Cod Ymarfer ac nad oedd yn gallu gweithio iddynt mwyach.

Gofynnwyd i'r gyrrwr ymateb i bob un o'r digwyddiadau a nodwyd yn yr adroddiad. Dywedodd y gyrrwr nad oedd yn gallu cofio'r digwyddiad cyntaf o bum mlynedd yn ôl gan na chafodd ei ddwyn i'w sylw ar y pryd. Trafodwyd yr ail ddigwyddiad gydag Uber ond roedd teithwyr yn ei gerbyd ac nid oedd yn gallu clywed beth

oedd yn cael ei ddweud gan Uber. Nid oedd yn gallu cofio'r trydydd na'r pedwerydd digwyddiad. Trafodwyd y pumed digwyddiad ond roedd yn teimlo na allai ateb y cwestiynau penagored a ofynnwyd iddo.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, ers terfynu ei gyfrif Uber, fod y gyrrwr wedi ceisio cyfathrebu â nhw ond roedd hyn yn anodd. Honnwyd hefyd fod Uber wedi gweithredu'n anghyfreithlon wrth adrodd y mater i'r Awdurdod Trwyddedu. Dywedodd y gyrrwr ei fod wedi bod yn yrrwr trwyddedig ers 19 mlynedd ac roedd ganddo sgôr ardderchog ar blatfform Uber.

PENDERFYNWYD – bod y gyrrwr yn cwblhau cymhwyster Awdurdod Cymwysterau'r Alban ar gyfer Gyrwyr Proffesiynol o fewn 3 mis. Mae gan yr Is-bwyllgor bryderon am batrwm ymddygiad y gyrrwr ar draws sawl digwyddiad a oedd yn gyfystyr ag ymddygiad amhroffesiynol.

(3) Cais 3

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried cais am drwydded cerbyd hacni / hurio preifat. Roedd gan yr ymgeisydd euogfarn dan Adran 5 am ddefnyddio geiriau ac ymddygiad bygythiol. Gofynnwyd i'r ymgeisydd amlinellu'r digwyddiad a arweiniodd at yr euogfarn.

Cafodd yr Aelodau wybod bod y gyrrwr wedi bod yn rhan o wrthdrawiad gyda gyrrwr arall. Roedd y ddwy ochr wedi tynnu i mewn i gilfan i gyfnewid manylion. Gwnaeth unigolyn trydydd parti geisio ymuno â’r sgwrs. Cafwyd dadl yn dilyn hynny pan alwodd yr ymgeisydd y trydydd parti yn hiliol.

Aeth yr heddlu i'r digwyddiad. Cafodd manylion eu cyfnewid a gadawodd yr ymgeisydd. Yn dilyn hynny, gofynnwyd i'r gyrrwr fynd i orsaf heddlu a chafodd ei gyhuddo. Cafodd yr honiadau eu gwadu ac aeth y mater yn ei flaen i'r llys. Dywedodd yr ymgeisydd fod y Cyfreithiwr ar Ddyletswydd wedi dweud wrtho am beidio â phoeni yn y llys. Nid oedd yn gallu dilyn yr achos yn foddhaol oherwydd problem gyda'i declyn clywed. Fe'i cafwyd yn euog.

Dywedodd y gyrrwr ei fod wedi bod yn yrrwr trwyddedig yng Nghasnewydd ers 9 mlynedd heb ddigwyddiad.

PENDERFYNWYD - bod y cais am drwydded cerbyd hacni / hurio preifat yn cael ei gymeradwyo.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15 pm.